

CYFRIFIADUREG TGAU

TGAU Cyfrifiadureg

Pryd gaiff ei gyflwyno: Un prynhawn yr wythnos
Teitl y cymhwyster: TGAU Cyfrifiadureg
Corff Dyfarnu: CBAC

Cyflwyniad i'r pwnc

Mae prinder cenedlaethol o fyfyrwyr sy'n gwneud cais am Addysg Uwch ac am waith mewn Cyfrifiadureg a meysydd cysylltiedig. Dyma gwrs ddwy flynedd o hyd a gafodd ei lunio i roi sylfaen ar gyfer y sgiliau technegol, fel rhaglennu, sydd eu hangen yn y maes hanfodol hwn o dechnoleg.

Cynnwys y Cwrs

Bydd y dysgwyr yn dilyn cymhwyster TGAU Cyfrifiadureg. Mae'r cwrs yn cynnwys 3 uned:

- Uned 1 – Deall Cyfrifiadureg

Mae'r uned hon yn cynnwys corff o wybodaeth am systemau cyfrifiadurol y bydd yr arholiad wedi'i seilio arno. Mae'r pynciau'n cynnwys Caledwedd, Gweithredoedd Rhesymegol, Cyfathrebu, Trefn a Strwythur Data, Meddalwedd Systemau, Egwyddorion Rhaglennu, Peirianeg Meddalwedd, Adeiladu Rhaglen, Rheoli Diogelwch a Data, ac effeithiau moesegol, cyfreithiol ac amgylcheddol technoleg ddigidol ar y gymdeithas ehangach.

- Uned 2 – Meddwl Cyfrifiadurol a Rhaglennu

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys cyfres o dasgau wedi'u gosod a'u marcio gan CBAC. Mae'r ymgeiswyr yn eu cwblhau ar gyfrifiadur. Bydd y tasgau hyn yn asesu cymhwysio gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol, gan ganolbwyntio ar ddatrys problemau, algorithmau a lluniadau rhaglennu, ieithoedd rhaglennu, strwythurau data a mathau o ddata, a diogelwch a dilysu.

- Uned 3 – Datblygu Meddalwedd

Mae'r asesiad dan reolaeth hwn yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr greu darn o waith gan ddefnyddio meddalwedd rhaglennu, ar ôl cael briff y dasg gan CBAC.

Adnoddau

Meddalwedd:

Python (gallwch ei lawrlwytho am ddim o - <https://www.python.org/>).

Greenfoot - sy'n amgylchfyd gweledol a rhyngweithiol gwrthrych cyfeiriedig sy'n defnyddio Java.

(gallwch ei lawrlwytho am ddim o - <http://www.greenfoot.org/download>)

Mae disgwyl bod dysgwyr yn gallu defnyddio cyfrifiadur gartref gyda meddalwedd Microsoft Windows wedi'i osod arno a chysylltiad rhyngwyd.

Asesu

TGAU Cyfrifiadureg: Arholiad ysgrifenedig 1 awr 45 munud (50%), arholiad ar-sgrin 2 awr (30%) ac asesiad rhaglennu dan reolaeth (20%).